CROESO I YSGOL DAVID HUGHES

WELCOME TO YSGOL DAVID HUGHES

Gorffennaf 17, 2020

Annwyl Ddarpar Ddisgybl Blwyddyn 7, Rhieni/Gwarcheidwaid,

Rwyf yn falch iawn o allu cadarnhau y bydd disgyblion newydd Blwyddyn 7 yn cychwyn yn Ysgol David Hughes **ar Ddydd Mercher yr 2il o Fedi.** Gan y byddwn yn gweithredu trefn o ddychwelyd graddol, dim ond Blwyddyn 7 fydd yn yr ysgol ar y diwrnod hwnnw ac felly bydd yn gyfle da iddynt ddod i adnabod yr adeilad a'r staff ac ymgyfarwyddo hefo trefniadau a gweithdrefnau mewn awyrgylch llai prysur na'r hyn sy'n arferol.

Deallwn bydd rhai disgyblion a rhieni yn bryderus am ddychwelyd i'r ysgol, ond gallwn eich sicrhau fod gweithdrefnau manwl a thrylwyr iawn yn eu lle er mwyn creu amodau mor ddiogel â phosib i bawb, gan gynnwys asesiadau risg perthnasol.

Ein bwriad yw cynnal diwrnod anwytho ar yr 2il o Fedi ac yna fod gwersi ffurfiol yn cychwyn ar y 3ydd. Bydd blynyddoedd eraill yn ymuno â Blwyddyn 7 yn raddol yn ystod y dyddiau canlynol gan anelu at gael pawb yn ôl erbyn Medi'r 10fed.

Disgwylir y bydd pob plentyn yn y wisg ysgol briodol. Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn gwisgo crys coler wen gyda thei clip yr ysgol a siwmper gwddf V borffor gyda logo'r ysgol arni.

Darparwyr Gwisg Ysgol David Hughes

Brodwaith: Llangefni (01248 750333)
www.brodwaith.co.uk

Orchid School Shop: Bangor (01248 354777)
www.orchid-schoolshop.cymru

All Sewn Up : Bangor (07402 919563)
www.allsewnupbangor.com

Mae ein holl ddisgyblion yn gwisgo trowsus neu sgert ddu ac esgidiau du. Bydd angen côt lliw tywyll ar gyfer y gaeaf hefyd. Yn ogystal â hyn, bydd angen dillad Addysg Gorfforol yr ysgol ac esgidiau chwaraeon ar bob disgybl. Mae'r wisg ar gael gan y darparwyr a nodir uchod. Rydym yn argymell eich bod yn labelu pob dilledyn yn glir gydag enw'r disgybl arno.

Hoffwn eich atgoffa o'r wybodaeth sydd i'w weld ar ein gwefan www.ysgoldavidhughes.org. Yno, dan y tab 'rhieni' fe welwch wybodaeth a fydd o fudd i chi, gan gynnwys ein llyfryn gwybodaeth i rieni a dysgwyr bl.6. Mae yno hefyd gylchgrawn pontio blynyddol sydd wedi ei baratoi gan ddysgwyr blwyddyn 6 a 7 yn gynharach eleni. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi petai pob plentyn yn cwblhau y dasg bontio sydd ar y wefan dros yr wythnosau nesaf. Mae yno hefyd lyfryn pontio i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd yn help i rai teuluoedd. Yn ychwanegol, ar y wefan, fe welwch daith rithiol o amgylch yr adeilad, gwybodaeth am y wisg a gwybodaeth am drafnidiaeth i'r ysgol. Fe welwch hefyd ymgais i ymateb i rai o gwestiynau pennaf ein rhieni (FAQ) ac mae linc i fideo ar gyfer dysgwyr blwyddyn 6.

Byddwn yn cysylltu gyda chi yn ail hanner mis Awst i gadarnhau a rhannu mwy o fanylion am ein trefniadau. Yn arferol fe fyddem hefyd yn cynnal cyfarfod yn neuadd yr ysgol gyda rhieni Blwyddyn 7 cyn diwedd mis Medi. Os fydd cyngor meddygol a gwyddonol a chanllawiau'r Llywodraeth yn caniatáu efallai y byddwn yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosib fe wnawn drefnu cyfarfod rhieni dros y we a chreu cyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer gofyn cwestiynau.

Bu'r wythnosau diwethaf yn heriol i ni gyd ond gallwn eich sicrhau y byddwn yn blaenoriaethu amser i Flwyddyn 7 ym mis Medi er mwyn iddynt ymgartrefu'n llwyddiannus yn yr ysgol.

Dymunwn yn dda i chi dros yr haf ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn at groesawu Blwyddyn 7 wrth iddynt gychwyn ar y cyfnod newydd cyffrous yn eu gyrfa addysgol.

July 17th, 2020

Dear Prospective Year 7 Pupil, Parents / Guardians,

I am glad to be able to confirm that our new year 7 pupils will be starting at Ysgol David Hughes on **Wednesday September 2nd.** We will be implementing a gradual return approach which means that Year 7 will be the only pupils in the school on that day and we hope it will give them the opportunity to get to know the staff, find their way around the school and familiarise themselves with the procedures and arrangements in a quieter environment.

We understand that some pupils and parents will be anxious about returning to school but we can ensure you that detailed and thorough procedures have been put in place to create the safest possible conditions for everyone, including relevant risk assessments.

Our aim is to have an induction day on September 2nd and to start formal lessons on the 3rd. Other school years will join Year 7 gradually during the days that follow with the hope of having all pupils back on September 10th.

It is expected that every pupil will be in the appropriate school uniform. Year 7 pupils wear a white shirt with a clip on school tie and a v neck purple jumper with the school logo.

Ysgol David Hughes Uniform Providers

Brodwaith: Llangefni (01248 750333)
www.brodwaith.co.uk

Orchid School Shop: Bangor (01248 354777)
www.orchid-schoolshop.cymru

All Sewn Up : Bangor (07402 919563)
www.allsewnupbangor.com

All our pupils wear black trousers or skirt and black shoes. A dark coloured coat will also be required for the winter months. Every pupil will also need the school P.E uniform and trainers. The uniforms are available from the providers noted above. We recommend that you label every piece of clothing with the pupil's name.

We would like to remind you of the information on our website www.ysgoldavidhughes.org. Under the "parents" tab you will find relevant information including an information booklet for parents and year 6 pupils. There is also a magazine which was created by year 6 and 7 pupils earlier this year as well as a task to be completed during the next few weeks. Also included is a booklet for pupils with Additional Learning Needs which could be helpful for some families. On the website there is a virtual tour of the school, information about the uniform and school transport. There is also an attempt to answer the most frequently asked questions and a link to a video for Year 6 pupils.

We will contact you during the second half of August to confirm the detailed arrangements for September. Usually we would have a meeting for year 7 parents before the end of September. If medical and scientific advice and Government guidelines allow us to do so we might continue with this arrangement. If it's not possible we will arrange a parents meeting on-line and create a bespoke email for questions.

The last few weeks have been very challenging for us all but we can assure you that we will be investing significant time at the beginning of September to ensure that your child settles here successfully.

We wish you well over the summer and look forward to welcoming Year 7 as they start on a new and exciting period in their education.

Yn gywir/Regards,

H.Emyr Williams

(Pennaeth / Head teacher)